

Mae Duw gyda ni bob amser

Addoliad ar y cyd

Darllenwch Salm 139:7-12 sy'n disgrifio Duw gyda ni ym mhob man. Sylwch ar harddwch y farddoniaeth a gofynnwch i'r disgyblion greu rhywbeth tebyg, modern ar gyfer Cristnogion heddiw, fel, 'Petawn ni'n mynd ar goll yn y ddinas, rwyd ti yno.'

Ble alla i fynd oddi wrth dy Ysbryd?

I ble alla i ddianc oddi wrthot ti?

Petawn i'n mynd i fyny i'r nefoedd, rwyd ti yno;
petawn i'n gorwedd i lawr yn Annwn , dyna ti eto!

Petawn i'n hedfan i ffwrdd gyda'r wawr
ac yn mynd i fyw dros y môr,
byddai dy law yno hefyd, i'm harwain;
byddai dy law dde yn gafael yn dynn ynof fi.

Edrychwch ar luniau o groesau Celtaidd a nodwch y defnydd o gylchoedd a llinellau wedi eu cydblethu sydd heb gychwyn na diwedd. Dyma'r ffordd Geltaidd o fynegi'r syniad o Dduw sy bob amser yn bresennol a bod ei gariad yn parhau am byth. Gofynnwch i'r disgyblion greu cylch ar eu llaw gyda'u bys wrth feddwl am berson neu sefyllfa sydd angen presenoldeb Duw. Neu, rhowch lanhawr pibell iddynt greu cylch i'w ddal wrth ddychmygu person neu sefyllfa yng nghanol cylch cariad Duw.

Byddai Cristnogion weithiau'n defnyddio gweddiau 'Caim', gan bwyntio wrth iddynt droi o amgylch ar y man yr oeddent yn sefyll, fel ffordd o'u hatgoffa eu bod wedi eu hamgylchu gan gariad Duw. Ar y dudalen nesaf mae dwy weddi - un gyda'r geiriau traddodiadol a'r llall yn canolbwyntio ar Wcráin. Wrth i rywun ddarllen y weddi, gofynnwch i'r disgyblion droi 90 gradd gyda phob gweddi, pob un yn troi'r un ffordd wrth ddychmygu, neu ddarlunio gyda'u bysedd, y cylch sy'n eu hamgylchu. (Gallech ddefnyddio cwmpawd i weithio allan pryd y bydd y disgyblion yn wynebu Wcráin.)



Amgylcha fi, Arglwydd
Cadw ddiogelwch yn agos
a pherygl yn bell

Bydd gydag Wcráin
Cadw'r bobl yn ddiogel
A chadw perygl i ffwrdd

Bydd gydag Wcráin
Rho iddynt obaith
A chadw ofn yn bell

Amgylchyna fi,
Arglwydd
Cadw obaith oddi fewn
Cadw amheuaeth y tu
allan



Amgylcha fi,
Arglwydd
Cadw'r goleuni yn
agos
A chadw'r
tywyllwch yn bell

Bydd gydag Wcráin
Dangos iddynt oleuni dy
gariad
Fel ei fod yn gyrru'r
tywyllwch i ffwrdd

Amgylchyna fi, Arglwydd,
Cadw heddwch oddi fewn
Cadw ddrygioni y tu allan

Bydd gydag Wcráin
Tyrd a heddwch
Atal y rhyfel

